# Pwyllgor ar y Papur Gwyn, Trefn Lywodraethu Well i Gymru

## Cofnodion BGW2 01-05

Dyddiad y cyfarfod: 28 Mehefin 2005
Amser y cyfarfod: 17.30-18.00
Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

### Yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Y Llywydd | Meirionnydd Nant Conwy |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Jane Hutt | Bro Morgannwg |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| Paul Silk | Clerc y Cynulliad |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

### Eitem 2: Dull Gweithio a Rhaglen Waith

Papur: BGW2 01-05 (p1)

2.1 Cafodd y Pwyllgor gyfle i ystyried y papur a thrafod y rhestr o dystion arfaethedig. Cytunodd

yr Aelodau i ddarparu enwau unrhyw dystion eraill yr hoffent eu hawgrymu i'r Clerc o fewn 24 awr.

2.2 Trafodwyd y cynnig arfaethedig i ganiatáu dirprwyon ar y Pwyllgor. Awgrymodd y Cadeirydd na ddylid caniatáu dirprwyon yn y sesiynau tystiolaeth oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn codi, ac na ddylid caniatáu dirprwyon yn y cyfarfodydd trafod o gwbl.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor y gellid derbyn tystiolaeth sy'n ymwneud â'r materion etholiadol sy'n codi yn y Papur Gwyn, ond na fyddai'r Pwyllgor yn eu trafod.

Gwasanaeth y Pwyllgorau